# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 14 Medi 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 16(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cynnig i addasu cylch gwaith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

(5mins)

**NDM6083** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3:

Yn cytuno i addasu cylch gwaith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, fel bod ei gylch gwaith fel a ganlyn:

(a) archwilio'r goblygiadau i Gymru oherwydd i'r Deyrnas Unedig benderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses adael, mewn unrhyw berthynas newydd â'r UE ac yn nhrefniadau gwledydd y DU ar ôl gadael ar gyfer materion perthnasol o ran polisi, cyllid a deddfwriaeth;

(b) cydlynu gweithgarwch ar draws pwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â phwynt (a) uchod;

(c) cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.8 i 21.11, gyda newid canlyniadol i gylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol;

(d) ystyried unrhyw fater arall, gan gynnwys deddfwriaeth, a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

**Dogfen Atodol**

Adroddiad y Pwyllgor Busnes

## 4 Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau

(5 munud)

**NDM6091** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3 a 17.13(ii), yn ethol Michelle Brown (UKIP Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

## 5 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6085** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu:

(a) diogelu Cymru rhag canlyniadau negyddol a allai ddigwydd ar unwaith ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd; a

(b) cau'r bwlch ffyniant rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig drwy:

(i) creu asiantaeth ddatblygu i Gymru ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a fydd yn gwerthu Cymru, ein cynnyrch a'n syniadau i'r byd er mwyn tyfu busnesau Cymru a hybu ein hallforion;

(ii) sefydlu comisiwn seilwaith cenedlaethol ar gyfer Cymru i gynllunio, ariannu a darparu seilwaith ein cenedl o ran trafnidiaeth, telathrebu, ynni a materion gwyrdd; a

(iii) codi lefelau caffael ar gyfer busnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu is-bwynt (a) a rhoi yn ei le:

'cyd-dynnu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill cyn dechrau proses erthygl 50 a'r trafodaethau fydd yn dilyn hynny.'

**Gwelliant 2.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu is-bwynt (b)(i) a rhoi yn ei le:

'gwerthu Cymru, ein cynnyrch a'n syniadau i'r byd er mwyn tyfu busnesau Cymru a hybu ein hallforion;'

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6084** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod cadw'r gweithlu rheng flaen yn her fawr sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru.

2. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru amlinellu ei hymateb i gynnydd diweddar yn nifer y swyddi meddygon gwag yn y GIG yng Nghymru.

3. Yn cydnabod, â phryder, bod salwch sy'n gysylltiedig â straen yn gynyddol gyfrifol am y ffaith bod staff gwasanaethau ambiwlansys yn absennol o'r gwaith, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar recriwtio a chadw staff yn y tymor hwy.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu strategaeth glir, gynhwysfawr sy'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu recriwtio a chadw staff rheng flaen ac yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â morâl isel y staff yn ystod y Pumed Cynulliad.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod angen i strategaeth recriwtio a chadw gynnwys ymrwymiad i godi nifer y myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio mewn ysgolion meddygol yng Nghymru.

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6087** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod gadael yr Undeb Ewropeaidd yn gyfle gwych i Gymru roi hwb i fasnach, diwydiant a chyflogaeth.

2. Yn croesawu'r rhyddid y mae gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ei roi er mwyn llunio polisi penodol ar gyfer amaeth a physgota yng Nghymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydweithio'n agos mewn ffordd gadarnhaol i fanteisio ar y cyfleoedd hyn a chynnwys pob plaid yn y Cynulliad yn ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU i elwa ar y buddiannau posibl i Gymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

'Yn cydnabod canlyniad y refferendwm ar 23 Mehefin ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n gadarnhaol â Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i Gymru yn ystod y trafodaethau a fydd yn digwydd.'

*Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn methu.*

**Gwelliant 2.** [Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi fod gan Gymru warged masnach â'r UE a bod cadw aelodaeth lawn o'r farchnad sengl yn hanfodol i fusnesau Cymru.

2. Yn gresynu at yr ansicrwydd y mae'r diwydiant amaeth yn ei wynebu o ganlyniad i adael Ewrop.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella'r gefnogaeth i'r sector addysg uwch, yn arbennig ym meysydd ymchwil a datblygu.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau trafodaethau rhwng y pedair gwlad ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd er mwyn sicrhau y caiff buddiannau cenedlaethol Cymru eu cynnal yn ystod y broses o adael yr UE.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6086** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

A fydd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ddigonol i fynd i'r afael â landlordiaid diegwyddor?

'Deddf Tai (Cymru) 2014'

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 20 Medi 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 7 Medi 2016 i'w hateb ar 14 Medi 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

1. Nathan Gill (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i rwystro taflu sbwriel yng Nghymru? OAQ(5)0025(ERA)

2. Jeremy Miles (Castell-nedd): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen ynni lleol Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0028(ERA)

3. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithlonrwydd TAN1? OAQ(5)0024(ERA)

4. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bysgota am gregyn bylchog ym Mae Ceredigion? OAQ(5)0029(ERA)**W**

5. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): Pa gamau y gall y Gweinidog eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol canlyniadol ar yr amgylchedd a gaiff eu hachosi gan ddatblygiadau busnes? OAQ(5)0020(ERA)

6. Lee Waters (Llanelli): Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas ag amaeth manwl? OAQ(5)0030(ERA)

7. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i wella'r amgylchedd yng nghanol ardaloedd trefol yng Nghymru? OAQ(5)0026(ERA)

8. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut mae Llywodraeth Cymru yn annog creu ardaloedd coediog yng Nghymru? OAQ(5)0022(ERA)

9. Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effeithiau posibl y bleidlais ar refferendwm yr UE ar gefnogaeth i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru? OAQ(5)0031(ERA)

10. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gynllun Gweithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid? OAQ(5)0034(ERA)**W** / **R**

11. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru) Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella ansawdd aer yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0018(ERA)

12. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau ailgylchu yng Nghymru? OAQ(5)0033(ERA)**W**

13. Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth sy'n cael ei wneud i gefnogi'r sector ffermio o gofio'r ansicrwydd yn dilyn y bleidlais i adael yr UE? OAQ(5)0021(ERA)

14. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella'r gefnogaeth i ffermwyr yn y Pumed Cynulliad? OAQ(5)0019(ERA)

15. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth yw asesiad y Gweinidog o adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2016 ar reoli llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru? OAQ(5)0032(ERA)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

1. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ardaloedd adfywio strategol? OAQ(5)0022(CC)

2. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau ymgysylltiad cymunedol effeithiol? OAQ(5)0026(CC)

3. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu canolfannau cymunedol? OAQ(5)0019(CC)

4. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cynnal ynglŷn â deddfwriaeth fyddai'n sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn yn yr un ffordd ag oedolion rhag ymosodiadau corfforol? OAQ(5)0035(CC)**W**

5. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â threchu tlodi plant yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0021(CC)

6. Leanne Wood (Rhondda): Pa ystyriaethau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi i'r effaith a gaiff gadael yr UE ar hawliau pobl ifanc yng Nghymru? OAQ(5)0033(CC)

7. Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Llywodraeth Cymru barhau i flaenoriaethu darpariaeth gofal plant mewn meithrinfeydd sy'n gysylltiedig ag ysgolion dros feithrinfeydd preifat? OAQ(5)0036(CC)

8. David Rees (Aberafan): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â gweinidogion cyfatebol yn San Steffan ynghylch cyllid adfywio yn dilyn y penderfyniad i adael yr UE? OAQ(5)0027(CC)

9. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant yng ngoleuni argymhellion adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree yr wythnos diwethaf, We Can Solve Poverty in the UK? OAQ(5)0034(CC)

10. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar Gymru? OAQ(5)0030(CC)

11. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu lleoedd llewyrchus llawn addewid yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0020(CC)

12. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am denantiaethau masnachol a gaiff eu gosod gan awdurdodau lleol? OAQ(5)0023(CC)

13. Nathan Gill (Gogledd Cymru): Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio yn ystod y Pumed Cynulliad? OAQ(5)0025(CC)

14. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith ar ei blaenoriaethau polisi yn ymwneud â phlant a phobl ifanc pe bai'n ennill pwerau ychwanegol dros blismona a chyfiawnder troseddol? OAQ(5)0024(CC)

15. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun 10 mlynedd arfaethedig ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru? OAQ(5)0032(CC)